Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd
Cofia ddysgu byw...



2024/25

Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

www.ygmg.cymru

Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

CYNNWYS

3 Datganiad gweledigaeth
3 Datganiad o fwriad
4 Cefndir
4 Cynllun Strydoedd Ysgol
5 Staff
6 Llywodraethwyr
6 Trefn dosbarthiadau
7 Derbyniadau
7 Oriau'r ysgol
7 Cinio ysgol
7 Gwisg ysgol
8 Arian
8 Polisi codi tâl
8 Iechyd, Llês a Diogelwch
8 Rhifau ffôn argyfwng
9 Cyfle cyfartal
9 Gwrth-hiliaeth
9 Ethos,Ymddygiad a Disgyblaeth
10 Y Cwricwlwm
11 Cwricwlwm i Gymru
12 Trosglwyddo i'r Uwchradd
12 Addysg ryw
12 Asesu
13 Prosiectau
13 Y Gymraeg
13 Siarter Iaith
14 Gwaith Cartref
14 Cyd addoli a gwasanaethau
14 Tai bach
14 Anghenion Dysgu Ychwanegol
15 Trefn Diogelu Plant
15 Cwynion
15 Clwb Brecwast am Ddim
16 Gwyliau Ysgol 2023 – 2024
16 Cynllun Gofal Gwyliau
16 Clwb Brecwast a Chlwb ar ol ysgol
17 Gwersi offerynnau Cerddoriaeth
17 Gweithgareddau ar ôl Ysgol







Pennaeth: Mr. Gwyndaf Jones
Heol Glan-y-Nant
Yr Eglwys Newydd Caerdydd
CF14 1AP

Ff: 029 20691247
E: ysgolmelingruffydd@caerdydd.gov.uk
www.ygmg.cymru
Cadeirydd y Llywodraethwyr:
Mr Rhodri Jones
Math o ysgol:
Ysgol Gynradd Gymraeg

Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

ARWYDDAIR YR YSGOL

'Cofia Ddysgu Byw'

(translated literally 'Remember to learn how to live')



ARWYDDAIR Y PLANT - Y 3C

Cymreictod, Cwrteisi, Cymhendod

Welshness, Courtesy, Tidiness



GWELEDIGAETH

Mae Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn gymuned ddiogel ac ysbrydoledig lle caiff pob plentyn ei werthfawrogi am ei bersonoliaeth, ei sgiliau a'i ddoniau unigol. Bydd y plant yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial llawn mewn amgylchedd dysgu gofalgar, cynhwysol ac arloesol. Mae lles wrth galon popeth a wnawn.

Rydym am i'n plant, teuluoedd a staff gael atgofion hapus o'u hamser gyda ni a chael eu hysgogi a'u hannog i wneud y gorau o ddysgu wrth iddynt deithio trwy fywyd.



Lleolir Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
Mae'r ysgol, a agorwyd yn 1979, yn ysgol gynradd benodedig Gymraeg gyda 466 o ddisgyblion ar y gofrestr mewn dosbarthiadau gallu cymysg.
Mae 15 ystafell ddosbarth gennym sy'n cynnwys dosbarth Meithrin ac 14 dosbarth prif ffrwd. Mae gennym neuadd, ffreutur, ystafell gyfrifiaduron a llyfrgell newydd.
Mae gan Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd staff sy'n ffurfio tîm cyfeillgar a gweithgar. Mae gan bob aelod o'r staff gyfrifoldeb am wahanol feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn galluogi staff i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Yn
ogystal â'r staff addysgu mae gennym nifer o weinyddesau a chynorthwywyr dosbarth.
Mae tua 5% o'r plant ar y gofrestr ADY ac yn derbyn cefnogaeth a chymorth ychwanegol.



Mae gan yr ysgol 2 glerc ysgol a 4 o oruchwyliwr amser cinio sy'n rhoi gwasanaeth da i'r ysgol.
Mae'r ysgol yn ymwneud â digwyddiadau chwaraeon yr ardal ac mae ein gweithgareddau allgyrsiol yn cynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, côr, offerynnau cerdd, dawnsio gwerin, cyfrifiaduron a'r Urdd.
Croesewir rhieni i gynorthwyo yn yr ysgol gyda phethau fel darllen, gwaith celf, dylunio a thechnoleg, cyfrifiaduron, coginio ac ati.
Mae gennym Gymdeithas Rhieni Athrawon fywiog a gweithgar sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r gymdeithas wedi cyflwyno nifer helaeth o roddion i'r ysgol er lles y plant.
Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn dangos cefnogaeth a diddordeb byw yn y plant a'r ysgol ac maent yn ymweld yn rheolaidd.

CYNLLUN STRYDOEDD YSGOL

Mae Cyngor Caerdydd wedi penderfynu cyflwyno Stryd Ysgol ar Heol Glan y Nant. Ni chaniateir i gerbydau modur yrru ar hyd y Stryd Ysgol rhwng 8.30am a 9.15am a rhwng 2.45pm a 3.45pm, oni bai bod gan gerbyd Drwydded Stryd Ysgol ddilys. Mae hi'n drosedd mynd i mewn i, neu yrru ar hyd Stryd Ysgol pan fo'n weithredol heb Drwydded Stryd Ysgol ddilys. Byddwn yn defnyddio camerâu gorfodi i fonitro Strydoedd Ysgol ac yn cyflwyno dirwyon (Hysbysiadau Tâl Cosb) i droseddwyr. Ni fydd unrhyw un yn gweithio ar y camerau, yn hytrach, bydd y camerau'n nodi'n awtomatig unrhyw gerbyd sydd heb drwydded yn ystod yr amseroedd gwaharddedig. Wedyn caiff fideo byr ei recordio o'r cerbyd sy'n troseddu iddo gael ei ddefnyddio'n dystiolaeth.

STAFF

Pennaeth	Mr. Gwyndaf Jones	
Dirprwy bennaeth	Mrs Catrin Dumbrill	
Staff Addysgu	Mr Huw Richardson Mrs Ffion Davies Miss Natasha Farrell Mr James Williams Mrs Catrin Llywelyn Miss Morganne Bendle Mrs Menna Williams Mrs Gwenno Kidley Mrs Gwenith Davies	Miss Rebecca Millward Mrs Catrin Champion Mrs Lowri Lewis Miss Chloe Jones Mrs Ellen Bowhay- Clark Miss Bethan Evans Miss Dion Mote Mrs Fran Howells
Ysgrifenyddesau'r ysgol	Mrs Esyllt Williams	Mrs Helena Jones
Cynorthwywyr Dysgu	Miss Sam Neathey Mrs Amy Evans Mrs Lorraine Rogers Mrs Sharon Rich Mrs Glesni Cooper Mrs Buddug Williams Miss Daneka Stephens	Mrs Chantelle Ohimekpen Mrs Sara Holliday Miss Sara James Miss Elen Jones Miss Ffion John Mrs Anna Townson Mrs Wendy Roberts
Swyddog Teulu	Mrs Noni Laugharne	
Goruchwylwyr Cinio	Mrs Chantelle Ohimekpen Mrs Geraldine Hughes Mrs Karen Murphy	Mrs Yvonne Clark Mrs Mehwish Naheem
Clwb Brecwast Am Ddim	Mrs Nadira Rahman Mrs Helen Cox	Mrs Rosalyn James Miss Linda Jones Ms Kate Prosser
Staff glanhau	Mrs Yvonne Clark Mrs Geraldine Hughes	Mrs Karen Murphy Mrs Laura Rose Miss Jessica Thomas
Gofalwr	Mr Simon Bullen	

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion.

ESTYN 2024

Y CORFF LLYWODRAETHU

Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Rhodri Jones
Pennaeth	Mr Gwyndaf Jones
Aelodau Cymunedol	Mr Rhodri Lloyd, Mr Emyr James, Mr Owain Williams,
Rhiant-Lywodraethwyr	Mrs Elin Davies, Mrs Nina Gosling, Mr Alex Lewis, Dr Llinos Griffith-Jones, Mrs Laura Tomos,
Athro-Lywodraethwyr	Miss Catrin Dumbrill, Mrs Rebecca Milward
Staff (nad ydynt yn addysgu)	Mrs Glesni Cooper
A. A. LL	Mr Dylan Owen, Mr Jamie Green, Mr Dafydd Sion

TREFNIANT DOSBARTHIADAU

BlwyddynYsgol	Dosbarth	Athro	Cyfanswm
Blwyddyn 6	6R	Mr. Huw Richardson	28
Blwyddyn 6	6D	Mrs Ffion Davies	29
Blwyddyn 5	5W	Mr James Williams	22
Blwyddyn 5	5M	Miss Dion Mote	23
Blwyddyn 4	4F	Mrs Natasha Farrell	29
Blwyddyn 4	4B/K	Miss Morganne Bendle/Mrs Gwenno Kidley	29
Blwyddyn 3	3LI	Mrs Catrin Llywelyn / Mrs Catrin Dumbrill	29
Blwyddyn 3	3J	Miss Chloe Jones	28
Blwyddyn 2	2C	Mrs Catrin Champion/Mrs Catrin Dumbrill	31
Blwyddyn 2	2M	Miss Beckie Milward	30
Blwyddyn 1	1DW	Mrs Gwenith Davies / Mrs Menna Williams	29
Blwyddyn 1	1E	Miss Bethan Evans	31
Derbyn	DJ	Mrs Fran Howells	28
Derbyn	DB	Mrs Ellen Bowhay-Clark	28
Meithrin	Nursery	Mrs Lowri Lewis a Mrs Glesni Cooper	64

Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

DERBYNIADAU

Mae'r ysgol yn gweithredu yn unol â pholisi derbyn y sir sy'n sicrhau cyfle cyfartal a chyfleoedd i blant sydd ag anableddau. Gofynnwn i rieni sy'n dymuno anfon eu plant i Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd gysylltu â'r ysgol er mwyn cofrestru enwau eu plant cyn gynted ag y bo modd. Anfonir pecyn gwybodaeth
a fydd yn cynnwys ffurflenni derbyn at rieni yn dilyn hynny. Mae lle i 64 o blant o oed Meithrin yn flynyddol a lle i 60 yn y dosbarth Derbyn

CINIO YSGOL

Darperir cinio ysgol am ddim i ddisgyblion. Mi fydd angen i chi archebu bwyd yn wythnosol ar lein.






ORIAU'R YSGOL

Derbyn, Blwyddyn 1 a 2	9.00am - 11.45pm	1.00pm - 3.25pm
Blwyddyn 3/4/5/6	8.55am - 12.30pm	1.30pm - 3.30pm

Ceir egwyl fer yn ystod sesiwn y bore a'r prynhawn.
Daw cyfanswm yr oriau addysgu i 21 awr a 15 munud yr wythnos yng Nghyfnod Allweddol 1 a 22 awr a 30 munud yr wythnos yng Nghyfnod Allweddol 2 - yr oriau a dreulir ar addysgu yn ystod wythnos ysgol gan gynnwys addysg grefyddol ond nid y weithred ddyddiol statudol o gydaddoli, o gofrestru ac egwylion.

Dylid sicrhau bod y plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ar gyfer dechrau'r diwrnod ysgol. Dylai plant gyrraedd yr ysgol rhwng 8.50am a 8.55am pan fydd drysau y Babanod ar agor a goruchwyliaeth ar yr iard ar gyfer plant yr Adran Iau. Pan fydd y tywydd yn wael, caiff y plant fynd i mewn i adeilad yr ysgol. Dylid casglu'r plant o'r ysgol yn brydlon am 3.25pm / 3.30pm.

GWISG YSGOL

Rydyn ni'n annog y disgyblion i'w gwisgo bob dydd er mwyn ennyn parch ac agweddau positif tuag at yr ysgol.

Gellir prynu'r wisg o siop
YC Schoolwear yn yr Eglwys Newydd – 02920 693653
neu ar-lein www.ycschoolwear.co.uk / www.safewearuk.com

GwisgYsgol
Sgert Lwyd
Trowsus Hir / Byr Llwyd
Crys Polo Glas
Sanau Gwyn / Llwyd
Crys Chwys Glas tywyll
Esgidiau du



ARIAN

Dylid talu am giniawau ysgol, digwyddiadau ac ymweliadau ar www.parentpay.co.uk
Bydd yr ysgol yn darparu'r manylion mewngofnodi i'r rhieni.

POLISI CODI TÂL

Gofynnir i rieni dalu, a hynny'n wirfoddol, am y canlynol:

- ymweliadau addysgol/teithiau ysgol
- bysiau ar gyfer gweithgareddau chwaraeon etc.
- ymweliadau gan gwmnïau theatr a siaradwyr/ ymwelwyr eraill
- hai clybiau (pan fo darparwyr allanol)
- deunyddiau o dro i dro (e.e. cynhwysion coginio).

Heb gefnogaeth ariannol gan rieni, ni fydd yn bosib i rai o'r gweithgareddau hyn ddigwydd!
Ni fydd plentyn yn cael ei wahardd rhag cymryd rhan os yw ei rieni'n methu â thalu. Os oes problem wirioneddol, dylech gysylltu â'r Pennaeth bob amser.
Gellir talu am gyrsiau preswyl dros gyfnod o amser gan ddefnyddio cardiau cynilo sydd ar gael o'r swyddfa.

RHIFAU FFÔN ARGYFWNG

Cedwir rhifau ffôn argyfwng yn swyddfa'r ysgol ar gyfer achosion damweiniau a salwch. Dylid sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru! Anfonir Ffurflen Gyswllt at rieni ar ddechrau bob blwyddyn ysgol i'r perwyl hynny.



IECHYD, LLÊS A DIOGELWCH

Cymerir pob gofal posibl am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna os fydd angen, eir â'r plentyn i Adran Ddamweiniau Ysbyty yr Heath.
Os yw plentyn yn sâl ac yn chwydu, dylid cadw'r plentyn bant o'r ysgol am o leia 48 awr.
Rhoddir moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig – a hynny ar ol derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig (ffurflen ar wefan yr ysgol) gan riant.
Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd.
Os bydd newid yn y modd y bydd plentyn yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni ddweud wrth y Pennaeth neu athro'r plentyn o flaen llaw am y trefniadau a wnaed.
Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r brif fynedfa cyn cael mynediad i' r ysgol.
Mae gan yr ysgol system larwm lladron a cheir 'ymarferion tân' yn dymhorol.
Mae'r nyrs ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Bydd archwiliadau clyw, golwg a deintyddol yn digwydd yn ystod cyfnod y plant yn yr ysgol.
Caiff asesiadau risg eu cwblhau yn rheoliad i sicrhau fod yr adeilad, y safle a mannau ymweld yn ddiogel i'r plant, i'r staff ac i ymwelwyr.
Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau clir ar gyfer Diogleu Plant. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ar gyfer hyn.



CYFLE CYFARTAL

Rydym fel ysgol yn hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb yn yr addysg a gynigwn yn yr ysgol. Nid yw Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn gwahaniaethu yn erbyn neb, boed yn staff, disgyblion neu ymwelwyr ar sail eu rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil, anabledd, crefydd neu liw.

Rydym fel ysgol yn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn derbyn yr un cyfleoedd addysgol. Anelwn fel ysgol at waredu gwahaniaethu anuniongyrchol sy'n medru atal addysg gyflawn.

DISGYBLION SYDD AG ANABLEDDAU

Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r pennaeth am ragor o fanylion. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn barod i ddarparu ac addasu cyfleusterau.

ETHOS, YMDDYGIAD A DISGYBLAETH

Ein dymuniad yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yw cynnal hinsawdd sy'n hybu agwedd gadarnhaol tuag at ymddygiad a disgyblaeth. Ein bwriad yw datblygu ymwybyddiaeth o hunanddisgyblaeth, cyfrifoldeb a pharch y naill at y llall yn ein disgyblion.

Gwobrwyir gwaith da ac ymddygiad da drwy roi sêr, pwyntiau, tystysgrifau ac Amser Aur. Pan fydd rhywun yn torri'r rheolau hyn, defnyddir sancsiynau priodol a bwriadus fel colli amser rhydd, colli breintiau, ymddiheuriadau ysgrifenedig ac adrodd i'r Pennaeth.Trafodir problemau disgyblaeth difrifol â rhieni yn gynnar a phwysleisir y bartneriaeth hon.

Mae gan Melin Gruffydd gytundeb ysgol/cartref sydd i'w gytuno a'i lofnodi gan y plant, y rhieni a'r staff.







GWRTH HILIAETH

Mae hawl gan bob plentyn i dderbyn yr addysg orau a ellir ei gynnig gan yr ysgol gan roi cyfle i'r disgyblion i gyd i brofi amrywiaeth o weithgareddau. Anelwn at greu ethos sy'n groesawgar i bawb. Mae Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb Hiliol a'n bwriad yw sicrhau y bydd ethos yr ysgol yn rhoi i'r plant yr amgylchedd iawn i dyfu'n aelodau o gymdeithas amlddiwylliannol gan barchu eraill a dangos gwir ddiddordeb yn eu buddiannau.

Mae'n bwysig parchu cred a diwylliant pobl eraill, mae'n bwysig felly i helpu'r plant i barchu ffyrdd eraill o fyw; i'w gwneud yn ymwybodol bod ffyrdd o fyw moesol ac ystyrlon yn gyffredin i bob cenedl a diwylliant; ac i fod yn garedig a thrugarog wrth bawb beth bynnag fo'u cefndir diwylliannol. Dilynir fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol i gynnig profiadau eang i'r disgyblion er mwyn datblygu synnwyr o hunan werth ac i allu uniaethu'n effeithiol ac eraill. Mae'r Polisi Cydraddoldeb Hiliol yn cael ei effaith ar ein Polisi Disgyblu, y Polisi Addysg Grefyddol, y Polisi ABCh., a'r Polisi Cyfleoedd Cyfartal.

Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

Y CWRICWLWM

Yn Ysgol Melin Gruffydd ein bwriad yw datblygu dysgwyr hyderus annibynnol. Mae'r Cwricwlwm yn ein helpu i weithio tuag at gweledigaeth o wella addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol. Does dim yn fwy hanfodol na bod pob plentyn a pherson ifanc yn caffael addysg ac yn cael mynediad cyflawn at y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen arnyn nhw ym myd gwaith, ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn datgan yn glir beth sy'n bwysig wrth ddarparu addysg eang a chytbwys.

Gweledigaeth ar y cyd yw'r pedwar diben, a dyma'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Wrth wireddu'r rhain, rydym yn gosod disgwyliadau uchel i bawb, yn hyrwyddo lles personol a chenedlaethol, yn herio anwybodaeth a ffug-wybodaeth, ac yn annog dysgwyr i chwarae eu rhan fel dinasyddion effro a beirniadol.

Cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam ydyn ni'n ei addysgu.

Dylai datblygu cwricwlwm fod wrth wraidd ymdrechion athrawon, ysgolion a'r cenedl i godi safonau i bawb, mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

Mae hefyd yn fodd pwysig o sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhan ganolog o brofiadau dysgu ein plant a'n pobl ifanc, ac o sicrhau eu bod yn deall eu hawliau.









GWELEDIGAETH CWRICWLWM

- Mae hapusrwydd a lles ein disgyblion wrth galon ein cwricwlwm - lles meddyliol a chorfforol
- Mae gweledigaeth ein cwricwlwm wedi ei wreiddio mewn Cymreictod, hunaniaeth, gwerthoedd a diwylliant Cymreig
- Mae ein cwricwlwm wedi ei drefnu mewn modd ymchwiliol er mwyn datblygu ystod eang o sgiliau - yn arbennig Llythrennedd, Rhifedd a Digidol
- Mae llais y plant yn holl-bwysig wrth fynd ar drywydd ymholi a chanfod gwybodaeth.
- Mae pwyslais mawr yn ein cwricwlwm ar yr ardal a'r gymuned leol sydd yn cynnig amrediad eang o gyfleoedd a phrofiadau cyfoethog i'n disgyblion
- Mae ein cwricwlwm yn cynnwys cysylltiadau gydag ardaloedd cyferbyniol a byd eang, sy'n hybu Dinasyddiaeth fyd-eang, tegwch, goddefgarwch a pharch at wahanol bobl
- Mae ein cwricwlwm yn cynnwys arbenigedd a diddordebau rhieni'r ysgol a thrigolion o fewn ein cymuned, er mwyn hyrwyddo addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith
- O fewn ein cwricwlwm, mae pwyslais ar ddysgu trwy brofiad, trwy ddysgu yn ymarferol a dysgu tu allan
- Cofia Ddysgu Byw

Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

CWRICWLWM I GYMRU

Dyluniwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru i fod o gymorth i athrawon ddatblygu dull mwy integredig o ddysgu. Mae'r chwe Maes yn dwyn disgyblaethau cyfarwydd ynghyd, ac yn annog cysylltiadau ystyrlon a chryf ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Bydd y disgyblaethau unigol hynny'n parhau i chwarae rhan bwysig, yn arbennig wrth i ddysgwyr ddangos cynnydd a dechrau arbenigo.

Yn ogystal â chydweithio mae'r canllaw yn annog dysgu ac addysgu traws-disgyblaethol, a hynny o fewn ac ar draws y Meysydd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i fagu cysylltiadau ar draws eu dysgu ac i gyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r Fframwaith hwn yn cynnwys 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r rhain yn sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, gan fod yn rhaid i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r holl ddatganiadau. Bydd y broses o archwilio ac ailymweld â'r datganiadau hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth gynyddol ddyfnach ar hyd y continwwm dysgu ac i ddangos cynnydd ar y daith tuag at ddealltwriaeth fwy soffistigedig o'r wybodaeth, syniadau a'r egwyddorion allweddol ym mhob Maes.

Dylid cefnogi'r cynnydd hwn gydag amrywiaeth o ddulliau asesu sy'n galluogi'r dysgwyr ac athrawon i ddeall ble mae'r dysgwyr wedi cyrraedd, a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud nesaf.

Bydd y cwricwlwm yn cael ei drefnu yn 6 Maes Dysgu a Phrofiad:



- **Celfyddydau Mynegiannol**
- **Iechyd a lles**
- **Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol**
- **eithoedd, llythrennedd a chyfathrebu**
- **Mathemateg a rhifedd**
- **Gwyddoniaeth a thechnoleg**









YN SAIL I'R HOLL GWRICWLWM BYDD Y 4 DIBEN

Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

TROSGLWYDDO I'R UWCHRADD

Mae plant Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Glantaf ar ddiwedd blwyddyn 6. Fodd bynnag, y rhieni sy'n dewis i ba ysgol y bydd eu plant yn mynd.

Yn ystod Blwyddyn 6, mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn anfon llyfryn manwl sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch trefn ceisiadau a derbyniadau ysgolion uwchradd.

Mae Ysgol Gyfun Glantaf yn darparu ffurflenni derbyn a gwybodaeth i ddisgyblion Blwyddyn 6 ac mae noson agored bob blwyddyn hefyd, a hynny'n rhoi cyfle i rieni disgyblion Blwyddyn 6 gwrdd â phennaeth a staff Ysgol Gyfun Glantaf.



ASESU

Mae cofnodion o waith y plant yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Cofnodir tystiolaeth o waith disgyblion a gweithredir asesu parhaol – ffurfiol ac anffurfiol.

Cynhelir Asesiadau personol arlein yn flynyddol - asesiadau Llythrennedd a Rhifedd
-i flynyddoedd 2 - 6.

Anfonir Adroddiadau Blynyddol at rieni tua diwedd y flwyddyn ysgol ynghyd â gwybodaeth am berfformiad y plant yn yr Asesiadau personol.

Cynhelir Prynhawniau/Nosweithiau Agored ddwywaith y flwyddyn lle caiff rhieni gyfle i ymweld â'r ysgol a chael sgwrs â'r athro dosbarth am ddatblygiad eu plentyn.

ADDYSG RHYW

Mae'r ysgol yn cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws y cwriclwm. Mae bodau dynol yn fodau cymdeithasol ac mae cydberthnasau iach yn elfen hanfodol o sefydlu a chynnal iechyd corfforol, meddwl ac emosiynol da. Mae Addysg Rhywioldeb yn archwilio'r ffyrdd rhyng-gysylltiedig y mae amrediad eang ac amrywiol o ddylanwadau cymdeithasol, diwylliannol, technegol a biolegol yn effeithio ar y gallu i
ffurfio a chynnal cydberthnasau cadarnhaol. Mae deall sut mae cydberthnasau yn cael eu ffurfio, yn datblygu ac yn cael eu cynnal yn ein galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r agweddau sy'n ein caniatáu i greu ein cydberthnasau iach ein hunain. Mae'n cefnogi pobl ifanc i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i lywio yn effeithiol y dylanwadau hyn sy'n newid yn gyflym a sefydlu cydberthnasau sy'n llawn parch ac yn foddhaus drwy gydol eu bywydau.
Gallai'r rhain
gynnwys cydberthnasau teuluol, cyfeillgarwch, cydberthnasau proffesiynol a chydberthnasau rhywiol.
Mae Addysg
Cydberthynas a Rhywioldeb yn elfen bwysig o greu dull gweithredu ysgol gyfan i gefnogi iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol cyffredinol



Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

PROSIECTAU

Mae'r ysgol yn weithgar iawn mewn amryw o brosiectau-

- Cynllun Addysg Iechyd – cynllun sydd yn hybu ffordd iachus o fyw
- Ysgolion ECO – Mae Ysgol Melin Gruffydd yn anelu at fod yn Ysgol 'erdd' ei meddylfryd. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i feddwl am syniadau am sut i gynyddu cyfraniad ein hysgol at helpu'r amgylchedd.
- Ysgol y Goedwig – Gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth
- o'r amgylchedd naturiol a chyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau.
- Hawliau Plant – Cynllun ysgol gyfan sydd yn annog disgyblion i fod yn ymwybodol o hawliau plant.
- Siarter Iaith – Cynllun ysgol gyfan sy'n hybu diddordeb
-

SIARTER IAITH

Nod y Siarter Iaith yw annog plant i siarad Cymraeg yn amlach mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am arwain y Siarter, ac yn eu geiriau nhw, 'Mewn gair, ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau' yw'r nod. Dros y tair blynedd nesaf, bydd pob plentyn ym mhob ysgol Gymraeg yn cael cyfle i ennill gwobr efydd, arian ac aur. Mae hyn yn dibynnu ar faint o Gymraeg maen nhw'n ei siarad o ddydd i ddydd - mewn sefyllfaoedd amrywiol yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r Siarter Iaith yn gyfle i bawb yng nghymuned yr ysgol chwarae eu rhan wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg - cyngor yr ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn o'r iaith.

Y GYMRAEG

Ysgol benodedig Gymraeg yw Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd. Ar wahân i'r Saesneg, sy'n cael ei chyflwyno yn yr adran Iau, mae pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni addysgir Saesneg yn y Babanod. Anogir pob plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser.







Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gyfeillgar, gynhwysol a Chymreig yr ysgol.

ESTYN 2024

CYMRAEG

#siarteriaithMG

GWAITH CARTREF

Wrth i'r plant symud o flwyddyn i flwyddyn, mae'r gwaith cartref a osodir yn cynyddu. Disgwyliwn i blant i dreulio tua un awr yr wythnos ar waith cartref, er bod hyn o bosib yn cynnwys darllen gyda rhiant.

Rhown ddyddiadur darllen i bob plentyn er mwyn i'r plentyn neu'r athro/athrawes neu'r staff cynorthwyol fedru cofnodi'r gwaith cartref darllen a hefyd er mwyn i'r rhieni/gofalwyr fedru gwneud sylwadau lle bo angen.

CYD ADDOLI/ GWASANAETHAU

Caiff y disgyblion y cyfle i gyd addoli yn ddyddiol. Mae'r adegau yma yn cynnig cyfle arbennig i gymuned yr ysgol gyfarfod gyda'i gilydd i gydaddoli ac ystyried materion sy'n effeithio ar yr ysgol gyfan, gan gwmpasu pynciau mor amrywiol â bwlio, gwyliau, perthnasoedd a phobl enwog. Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant yn ôl o'r gwasanaethau neu ran ohonynt a'r gwersi Addysg Grefyddol yn y dosbarth.Mae croeso i chi drafod hyn gyda'r Pennaeth

TAI BACH

Mae gan yr ysgol ddigon o dai bach i'r disgyblion yn y prif adeilad. Mae 'na ddigon o dai bach i'r bechgyn a'r merched yn y Babanod a'r Iau. Mae'r cyfleusterau yn addas ar gyfer oed y plant sy'n eu defnyddio. Hefyd, mae gan yr ysgol dai bach sydd á mynediad i bobl anabl. Ceir tai bach ychwanegol at ddefnydd staff ac ymwelwyr yn unig. Glanheir y tai bach yn ddyddiol.







ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Ein bwriad yw darparu cyfle i bob plentyn ddatblygu i'w lawn botensial, o gofio anghenion a gallu unigol y plentyn. I'r mwyafrif o ddisgyblion, cyflawnir yr anghenion hynny yn y dosbarth drwy'r cwricwlwm a pholisïau cwricwlwm cysylltiedig yr ysgol a'r strategaethau dysgu ac addysgu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol ar nifer bach o blant. Credwn fod adnabyddiaeth gynnar ac ymyriad priodol yn gwella disgwyliadau plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ein hamcan yw creu amgylchedd ysgol sy'n meithrin anogaeth, derbyniad, parch a sensitifrwydd fel y gall pob plentyn ag Anghenion Addysgol Arbennig brofi llwyddiant yn ôl eu cyfyngiadau unigol .Mae gennym nifer o strategaethau cefnogi y gellir eu cynllunio i ddiwallu anghenion plentyn unigol, gan gynnwys anghenion Plant Dan Ofal. Os bydd angen, byddwn yn ceisio cymorth proffesiynol oddi wrth asiantaethau allanol er mwyn diwallu anghenion y plentyn yn llawn.

TREFN DIOGELU PLANT

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol ,emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff , yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater wrth Berson Dynodedig Diogelu yr Ysgol.

Gall Person Dynodedig Diogelu yr Ysgol ymgynghori â chyd- weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol .Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i Berson Dynodedig Diogelu yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ,yn unol â chanllawiau a phrotocol y sir.Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd hi bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn.Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

"Nodwedd gref o'r ysgol yw natur hapus a chyfeillgar y disgyblion. Maent yn feddylgar at eraill, yn sgwrsio'n gwbl naturiol â'i gilydd ac oedolion yn Gymraeg ac yn dangos diddordeb a chwilfrydedd yn y byd o'u cwmpas."

ESTYN 2024





PRESENOLDEB

Mae presenoldeb Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn gyson uchel
Absenoldeb o'r ysgol –
Dylid rhoi gwybod i'r ysgol drwy ffonio/ ebostio ar y diwrnod cyntaf os yw plant yn mynd i fod yn absennol. Rydym yn poeni os oes plant yn absennol o'r ysgol a byddwn yn cysylltu á'r rhieni ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Os na fyddwn yn derbyn gwybodaeth am absenoldeb bydd y plant yn cael marc 'absenoldeb heb awdurdod'.





CWYNION

Gall athro dosbarth eich plentyn fel arfer ddelio'n gyflym â chwynion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm neu unrhyw agwedd arall ar fywyd yr ysgol. Fel arfer, byddai'n well petaech yn gwneud apwyntiad drwy swyddfa'r ysgol fel y gallwn neilltuo amser priodol i ystyried a datrys unrhyw gwynion. Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad, gallwch drafod y mater ymhellach gyda'r Pennaeth a fydd yn cynnwys y personau priodol angenrheidiol er mwyn datrys y sefyllfa. Os bydd angen, gellir dod â chwynion ysgrifenedig at sylw'r Corff Llywodraethu.

CLWB BRECWAST AM DDIM

Sefydlwyd Clwb brecwast Am Ddim Melin Gruffydd ym mis Medi 2012. Bwriad y clwb yma yw darparu brecwast maethlon i'r plant. Mae'r clwb ar agor o 8.30am hyd at 9.00am. Os hoffech gofrestru'ch plentyn yn y clwb yma, yna cysylltwch â'r ysgol.

Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

GWYLIAU YSGOL

Tymor yn dechrau	Hanner tymor yn dechrau	Hanner tymor yn gorffen	Tymor yn gorffen
Dydd Llun – Medi 2	Dydd Llun – Hydref 28	Dydd Gwener – Tachwedd 1	Dydd Gwener – Rhagfyr 20
Dydd Llun – Ionawr 6	Dydd Llun – Chwefror 24	Dydd Gwener – Chwefror 28	Dydd Gwener – Ebrill 11
Dydd Llun – Ebrill 6	Dydd Llun – Mai 26	Dydd Gwener – Mai 30	Dydd Llun– Gorffennaf 21

CYNLLUN GOFAL YSGOL



Mae Ysgol Melin Gruffydd a Menter Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth i gynnal Cynllun Gofal i blant 4-11 mlwydd oed yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r cynllun yn rhedeg yn ystod gwyliau hanner tymor yr Hydref, Chwefror,Y Pasg, Sulgwyn a'r Haf o 8.30 y bore nes 5.30 y prynhawn. Yn ystod y Cynllun mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau megis celf a chrefft, coginio a chwaraeon yn ogystal a thrip unwaith yr wythnos.



Cynhelir Clwb Brecwast yn yr ysgol bob bore o 7.30am i 8.30am a chlwb ar ôl ysgol o 3.25pm i 5.45pm. Mae'r clybiau gofal yma yn agored i blant y dosbarth Derbyn-Blwyddyn 6 a rhoddir lluniaeth i'r disgyblion. Mae'r clybiau yma yn boblogaidd iawn a dylid cofrestru yn fuan..

Am fanylion pellach cysylltwch â Trystan Francis –
07967 568 412

GWERSI OFFERYNNAU CERDDORIAETH

Hyfforddwr	Diwrnod	Offeryn
Mr. Dewi Griffiths	Llun	Prês
Mrs Caroline Hunter	Mawrth	Chwythbrennau
Mr Richard Barlow	Mercher	Ffidil
Mrs Jennifer Lloyd	Iau	Soddgrwth
Mrs Eluned Henry	Gwener	Telyn

CLYBIAU ALLGYRSIOL

Dydd Llun	Cyfarfodydd Staff	
	Clwb Dawns	Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 Cwmni Dancefit
Dydd Mawrth	Ymarfer pêl rhwyd	Bl 5 a 6
	Clwb Aml Chwaraeon	Bl 3 a 4 Urdd
	Ymarfer Rygbi	Bl 5 a 6
	Taekwando	Cwmni JSTKO
Dydd Mercher	Ymarfer Côr	Bl 4, 5 a 6
Dydd Iau	Ymarfer Pêl droed Merched pob yn ail wythnos gyda Rygbi Merched. (Dechrau gyda Rygbi wythnos nesaf)	Bl 5 a 6
	Ymarfer Pel Droed Bechgyn	Bl 5 a 6
	Clwb Perfformio	Cwmni Clwb Criw Perfformio
Dydd Gwener	Clwb Dawns	Blwyddyn 3 i 6 Cwmni Dancefit -
	Clwb Celf	Bl 2,3,4,5 6 Cwmni Pili Art

Monday	Staff Meeting	
	Dance Club	Reception, Year 1 and 2 Dancefit
Tuesday	Netball Training	Year 5 and 6
	Urdd Multi Sports Club	Year 3 and 4 Urdd
	Rugby Training	Year 5 and 6
	Taekwando	JSTKO
Wednesday	Choir Practice	Years 4, 5 and 6
Thursday	Football Training Boys	Year 5 and 6
	Football Training Girls every other week with Girls Rugby (Starting with Rugby next week)	
	Performance Club	Clwb Perfformio Company
Friday	Dance Club	Year 5 a 6 Dancefit
	Art Club	Years 2,3,4,5,6 Pili Art Company

Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd



www.ygmg.cymru

02920691247